

## Pwyllgor Cyswilt Ystadegol Cymru

Cyd-bwyllgor Ymgynghorol Ystadegau Gwladol  
Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 8fed o Fehefin 2017  
Ystafell Rhufoniog, Cyffordd Llandudno

### Yn bresennol

<b>Cyffordd Llandudno</b>			
Janine	Edwards	JE	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Sue	Leake	SL	Llywodraeth Cymru (LIG) - Cadeirydd
Gwynfor	Owen	GO	Cyfieithydd - Geiriau Gwyn
Gwyndaf	Parry	GP	Gofal Cymdeithasol Cymru
Chris	Philips	CP	Cyngor Sir y Fflint
Jamie	Thorburn	JT	Cyngor Sir Ceredigion
Nia	Jones	NJ	Cyngor Gwynedd
<b>Fideo Gynhadledd Parc Cathays</b>			
Richard	Cardwell	RC	Cyfoeth Naturiol Cymru
Leanne	John	LJ	Dinas a Sir Abertawe
Glyn	Jones	GJ	Llywodraeth Cymru
Steve	King	SK	Dinas a Sir Abertawe
Jenny	Murphy	JM	Uned Ddata Cymru
Nicole	Scully	NS	Cadw cofnodion - Llywodraeth Cymru
Steffan	Williams	SR	Cyfieithydd
Craiger	Solomons	CS	Siaradwr - Llywodraeth Cymru
Gemma	Christian	GC	Siaradwr - Llywodraeth Cymru
Gareth	Hall	GH	Siaradwr - Llywodraeth Cymru
David	Thomas	DT	Siaradwr - Llywodraeth Cymru
<b>Skype (Datgysylltwyd oherwydd sŵn yn y cefndir)</b>			
Lesley	Rees	LR	Cyngor Sir Caerfyrddin

### Ymddiheuriadau

Karen	Armstrong	Cyngor Sir y Fflint
Philip	Barlow	Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro
Sioned	Cardew-Richardson	Estyn
Lee	Clarke	Cyngor Dinas Caerdydd
Chris	Clarke	Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Hugo	Cosh	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Brett	Davis	Heddlu De Cymru
Vicki	Doyle	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Jill	Edge	Cyngor Sir Fynwy
Neville	Evans	Cyngor Sir Ynys Môn
Rhys	Fidler	Uned Ddata Cymru
Alan	Jackson	Llywodraeth Cymru
Martin	Jennings	Comisiwn y Cynulliad

Nia	Jones	Llywodraeth Cymru
Helen	Jones	Llywodraeth Cymru
Paul	Jones	Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Sarah	Jones	Arolygiaeth Iechyd Cymru
Gretel	Leeb	Siaradwr - Llywodraeth Cymru
Ann-Marie	McCafferty	Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Geraint	Morgan	Cyngor Sir Powys
Shân	Morris	Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru
Yuan	Shen	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Andrew	Stephens	Uned Ddata Cymru
Kim	Swain	Llywodraeth Cymru
Holly	Walsh	Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru
Russell	Watts	Cyngor Bro Morgannwg
Andy	Wilson	Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Lowri	Wyn Francis	Cyngor Gwynedd

<b>1</b>	<b>Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau</b>	
	Agorodd SL y cyfarfod a chroesawodd hanner arall y fideo-gynhadledd yng Nghaerdydd (peth a wnaed am y tro cyntaf yn y cyfarfod hwn). Gadawodd LR (Skype) y cyfarfod oherwydd problemau sŵn yn y cefndir.	
<b>2</b>	<b>Nodyn o'r cyfarfod diwethaf a diweddariad ar y pwyntiau gweithredu (Pwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru 2016/10)</b>	
	<p>Roedd diweddariad wedi ei ddarparu ar y camau gweithredu. Camau gweithredu a drafodwyd:</p> <p>Cam gweithredu 2: Hyfforddiant Ystadegau Cymru; cynnig cynnal webinar ym mis Medi</p> <p>Cam gweithredu 3: Cau</p> <p>Cam gweithredu 4: Adroddodd SL nad oedd hwn wedi ei weithredu eto.</p> <p>Cam gweithredu 11: Ceisiodd NJ ddefnyddio mapiau ac nid oedd yn gweithio wrth newid o Saesneg i Gymraeg.</p> <p>Cam gweithredu 12: Cynhaliwyd gweithdy gyda phump Awdurdod Lleol yn ddiweddar; bydd GJ yn rhoi diweddariad pan fydd adborth ar gael.</p> <p>Gofynnodd NJ am ddiweddariad ar yr arolwg cyflwr tai yn y cyfarfod nesaf.</p>	<p><b>Cam gweithredu: GJ i awgrymu dyddiad ar gyfer webinar Ystadegau Cymru</b></p> <p><b>Cam gweithredu: NJ i anfon nodyn ar y problemau a gafwyd gyda mapio ar borth daearyddol WISERD.</b></p> <p><b>Cam gweithredu: GJ i gysylltu â CP/RC a siarad drwy dechnoleg Cyfarpar Data SAIL</b></p> <p><b>Cam gweithredu: Yr ysgrifenyddiaeth i ychwanegu diweddariad ar gyflwr tai at agenda'r cyfarfod nesaf</b></p>
<b>3</b>	<b>Adolygu papurau gwybodaeth</b>	
	<b>Cylchlythyr Ystadegau Llywodraeth Cymru</b> Rhoddodd GJ grynodedb o gylchlythyr Ystadegau LIC, gan	

	<p>gynnwys trafodaeth neilltuol ar y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol wedi ei gyhoeddi</li> <li>• Diweddariad ar raglen tystiolaeth cyflwr tai gan SL. Bydd Arolwg Cyflwr Tai Cymru yn parhau i fynd ymlaen drwy gydol 2017-2018 a disgwylir canlyniadau o ganol 2018 ymlaen. Disgwylir y canlyniadau tloedi tanwydd cychwynnol ym mis Rhagfyr 2018. Cafwyd trafodaeth i ddilyn.</li> <li>• Gofynnodd SK pa mor aml y ceid diweddariadau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD) yn y dyfodol yn dilyn 2019. Nid oes penderfyniad wedi ei wneud eto ond mae'n debyg y bydd amllder cynlluniau Lles yn cael ei gymryd i ystyriaeth.</li> </ul> <p><b>Diweddariad Demograffig</b> Rhoddwyd y diweddariad gan SL</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gofynnodd JE a oedd pawb wedi derbyn diweddariad ar ddata Cofrestr Weinyddol y GIG (NHSAR). Rhoddodd JM ddiweddariad a dywedodd ei fod bellach yn cael ei alw'n ddata Gwasanaeth Demograffig Cymru (GDC) a'i fod yn cael ei ddirwyn i ben yn Lloegr.</li> </ul> <p><b>Diweddariad yr Uned Ddata:</b> Rhoddodd JM ddiweddariad ar:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Poblogaeth ac asesiadau lles</li> <li>• Data perfformiad sydd i ddod allan ym Awst / Medi</li> <li>• Partneriaethau Sgiliau Ranbarthol</li> <li>• Dewis Cymru. Gofynnodd GJ a fydd modd i hwn gael API / gwasanaeth data agored.</li> <li>• Cynhadledd Undydd Cymdeithas Ymchwil a Gwybodaeth Ardaloedd Lleol (LARIA), Roedd ar Andrew Stephens eisiau gwybod a oedd rhywrai yn dymuno gweithio gyda'i gilydd ar bapur.</li> </ul> <p><b>Diweddariad ar yr Arolwg Cenedlaethol</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Tynnodd SL sylw at yr adroddiadau byrion a gyhoeddwyd am y ffactorau sy'n gyrru rhai o'r dangosyddion cenedlaethol. Cadarnhaodd y defnyddir yr Arolwg Cenedlaethol, ymhlith dibenion eraill, i fonitro nifer o'r dangosyddion cenedlaethol.</li> <li>• Dywedodd GJ na fydd pob dangosydd yn cael ei ddiweddarau'n flynyddol yn yr Arolwg Cenedlaethol.</li> </ul>	<p><b>Cam gweithredu: GJ i ofyn i grwpiau polisi a oeddent wedi cynnal ymchwil ar y tai fforddiadwy a ddarparwyd ymysg tai a adeiladwyd o'r newydd o gymharu â'r angen.</b></p> <p><b>Cam gweithredu: JM i roi diweddariad i grŵp Rhagamcanion Poblogaeth Is-genedlaethol Cymru (WASP)</b></p> <p><b>Cam gweithredu: JM i edrych i mewn i ddata GDC a chadarnhau a oes unrhyw newidiadau i Gymru o ganlyniad i newidiadau i broses NHSAR.</b></p> <p><b>Cam gweithredu: Pawb: Rhoi barn am gynllun strategol yr Uned Ddata</b></p> <p><b>Cam gweithredu: JM i weld a yw Dewis Cymru yn cynnwys API neu wasanaeth data agored</b></p> <p><b>Cam gweithredu: JE/Pawb i ddweud wrth GJ/SL os oes yna ofynion cryf i gwestiynau gael eu cynnwys yn yr Arolwg Cenedlaethol ar gyfer 2018-19</b></p>
4	<b>Diweddariad Cyflymder Teithio</b>	<b>Craiger Solomons, Llywodraeth Cymru</b>
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhoddodd CS ddiweddariad gan ddweud bod ystadegau cyflymder teithio cyfartalog, sy'n canolbwyntio ar draffyrdd Cymru, wedi eu cyhoeddi ar 17 Mai 2017. Defnyddiwyd dulliau tebyg i'r Adran Drafnidiaeth. Defnyddiwyd data GPS ynghylch ceir a'i rannu yn ôl dyddiau ysgol/dyddiau dim ysgol. Roedd y</li> </ul>	<p><b>Cam gweithredu: Pawb: Ystyried syniadau am ffyrdd o gydweithredu gyda Phrifysgol Caerdydd a Champws Gwyddor Data y Swyddfa Ystadegau Gwladol, yn</b></p>

	<p>data hefyd wedi ei rannu yn ôl Awdurdod Lleol.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gellid defnyddio'r data ar gyfer monitro polisi rhwydwaith traffyrdd a chefnffyrdd.</li> <li>• Mae modd i Awdurdodau Lleol gael y data yn ffurf data crai. Mae'r data ar gael ar gyfer Cymru Gyfan, nid Awdurdodau Lleol De Cymru'n unig. Mae peirianwyr Cludiant hefyd wedi gofyn.</li> <li>• Codwyd nifer o faterion megis amrywiadau tymhorol a dealltwriaeth o effaith gwaith ar y ffyrdd.</li> <li>• Gofynnodd JE a yw'r rhain i gael eu cysylltu â Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru</li> <li>• Gwnaeth GJ sylw am reoli disgwyliadau, gan fod y math o ddata sy'n cael ei ddefnyddio yn set ddata enfawr, sy'n gofyn am bobl â'r sgiliau cywir a'r grym prosesu priodol i redeg y set ddata lawn. Crybwyllodd waith Campws Gwyddor Data y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) yng Nghasnewydd</li> <li>• Dywedodd GJ fod rhywun o Lywodraeth Cymru wedi gael ei dderbyn ar raglen gyflym gwyddor data i edrych ar y set ddata hon.</li> </ul>	<p><b>enwedig gan fod setiau mawr o ddata cludiant ar gael.</b></p> <p><b>Cam gweithredu: CS i gylchredeg dolennau cyswllt i Gyflymder Cerbydau ar draffyrdd Cymru</b></p>
<p><b>5</b></p>	<p><b>Cynllun Tystiolaeth</b></p>	<p><b>Glyn Jones</b></p>
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhoddodd GJ ddiweddariad y bydd y Cynllun Tystiolaeth yn cael ei gyhoeddi ym mis Awst.</li> <li>• Gorffennaf - Adroddiad Lles yn cael ei gyhoeddi.</li> <li>• Dadansoddiad polisi mewnol i gefnogi Brexit a Thasglu Cymoedd Cymru.</li> <li>• Y Gymraeg - gweithio tuag at y targed o un miliwn o siaradwyr Cymraeg. Cysylltu data'r Cyfrifiad ag Arolwg Cenedlaethol Cymru. Mae Martin Parry yn cynnal dadansoddiad o'r rhesymau pam mae rhai pobl yn dweud eu bod yn siarad Cymraeg yn yr Arolwg Cenedlaethol a dim yn y Cyfrifiad.</li> <li>• Ebrill - Dangosfwrdd Power BI ar berfformiad y GIG.</li> <li>• Cyhoeddi data ar les meddyliol a dulliau iach o fyw i blant am y tro cyntaf.</li> <li>• Tai a'r Amgylchedd - Ceisio cael bathodyn ystadegau gwladol yn ôl ar ystadegau digartrefedd.</li> <li>• Cyfiawnder cymdeithasol a chydraddoldeb - cynlluniau ar gyfer MALIC wedi eu gwneud, cynlluniau i ddatblygu data tloidi plant. Ehangu data ar hunaniaeth rywiol yng Nghymru 2015-16. Cyhoeddi data tanau glaswelltir - heriwyd ar brydlondeb yn erbyn dadansoddiad. Caiff yr amserlen ei diwygio yn y dyfodol.</li> <li>• Amaethyddiaeth ac Ystadegau Gwledig - ciwbiau Ystadegau Cymru ar gyfer amaethyddiaeth i gael eu cyhoeddi ym mis Gorffennaf. Gofynnodd JE a fyddai ciwbiau ystadegau Cymru yn cymryd lle canlyniadau'r arolwg gan fod canlyniadau arolwg wedi cael eu dal yn ôl yn y gorffennol ar lefel Awdurdodau Lleol. Ystadegau ysgol - Newid yn y cwricwlwm - sut bydd hyn yn effeithio ar y data. Cynyddu argaeledd ar</li> </ul>	<p><b>Cam gweithredu: GJ i gylchredeg sleidiau ar y Cynllun Tystiolaeth gyda chofnodion y Pwyllgor</b></p> <p><b>Cam gweithredu: Pawb: darparu adborth ar giwbiau amaethyddiaeth Ystadegau Cymru pan gânt eu cyhoeddi</b></p> <p><b>Cam gweithredu: JM i godi'r materion ynghylch y Mesurau Perfformiad ac Atebolrwydd</b></p>

	<p>Ystadegau Cymru. Gofynnodd JE a fydd y data yn cynnwys sut y mae pobl unigol yn gwneud yn hytrach na newidiadau blwyddyn ar ôl blwyddyn. Yr ateb oedd na, dim ar hyn o bryd. Codwyd cwestiwn gan CP ynghylch mesur perfformiad yr Uned Ddata ar ddisgyblion sy'n gadael heb ddim cymwysterau ac a oedd hyn yn dal i fod yn berthnasol.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Arolwg Twristiaeth: Beth sy'n digwydd gyda Chroeso Cymru a'u rhaglen a sut mae'r canlyniadau yn bwydo i mewn i STEAM?</li> <li>• Awgrymwyd y byddai'n fuddiol trafod unrhyw ddiweddariadau ar gontractau dim oriau, data budd-daliadau a Chredyd Cyffredinol yn y cyfarfod nesaf</li> </ul>	<p><b>Addysg (PAMs) ac adrodd yn ôl i CP</b></p> <p><b>Cam gweithredu: SL a GJ i edrych i mewn i'r cysylltiadau rhwng yr Arolwg Twristiaeth a STEAM gyda Chroeso Cymru a rhoi adborth i'r grŵp</b></p> <p><b>Cam gweithredu: Yr Ysgrifenyddiaeth i gynnwys eitem ar yr agenda ar ddata diwygio lles, gan gynnwys contractau dim oriau</b></p>
<b>6</b>	<b>Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC)</b>	<b>Gemma Christian a Gareth Hall, Llywodraeth Cymru</b>
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhoddodd GC a GH ddiweddariad ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (Darparwyd sleidiau).</li> <li>• Mae'r ymgynghoriad ar Adroddiad Rychwantu Aseiad Cynladwyedd Integredig ar gyfer y FfDC yn mynd yn ei flaen. Mae'n broses gwbl agored ac mae'r holl ddata a ddefnyddir ar gael. Maent yn gofyn am adborth ar y dull ac a oes yna unrhyw ddata arall y dylent ei ddefnyddio.</li> <li>• Gwanwyn 2018: Materion a dewisiadau i'r Fframwaith i gael eu cyhoeddi.</li> <li>• Mynegodd JE bryderon ynghylch y broses a gofynnodd nifer o gwestiynau ynghylch y set ddata.</li> <li>• Gwnaeth CP sylw ar y diffyg cyllid yn Sir y Fflint ac ymgymryd â mwy o waith ymchwil. Arweiniodd hyn at drafodaeth ynghylch y Fframwaith mewn perthynas â chapasiti a'r gallu i'w gyflawni.</li> <li>• Holodd JT ai dull o'r brig i lawr yw'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Dywedodd RC fod sefydliad Cyfoeth Naturiol Cymru wedi paratoi ymateb i'r ymgynghoriad.</li> <li>• Awgrymodd JE mai cyfle a gollwyd ydoedd peidio â chynnwys cynllunwyr defnydd tir wrth ddatblygu adroddiad tueddiadau'r dyfodol.</li> </ul>	<p><b>Cam gweithredu: Tîm y FfDC i gylchredeg dolennau cyswllt i ymgynghoriad y FfDC</b></p> <p><b>Cam gweithredu: JE/Pawb i anfon cwestiynau/sylwadau ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol i dîm y FfDC</b></p> <p><b>Cam gweithredu: Pawb: Llofnodi i dderbyn cylchlythyr y Fframwaith os ydynt yn dymuno</b></p>
<b>7</b>	<b>Diweddariad ar Fil yr Economi Ddigidol</b>	<b>Glyn Jones</b>
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhoddwyd diweddariad gan GJ.</li> <li>• Cafodd Deddf yr Economi Ddigidol ei phasio yn y Senedd yng ngwanwyn 2017.</li> <li>• Mae codau ymarfer i gael eu datblygu ar gyfer pob llinyn ynddi.</li> <li>• Bydd yn weithredol erbyn diwedd 2017 / dechrau 2018.</li> <li>• Yn dilyn ymholiad a oedd y Ddeddf yn cyfyngu ar</li> </ul>	<p><b>Cam gweithredu: GJ i ddarparu papur ar Ddeddf yr Economi Ddigidol</b></p>

	<p>ddiogelu data, atebodd GJ nad yw yn darparu ond porth cyfreithiol i rannu'r data a bod angen parhau i lynu wrth ddiogelu data.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cafwyd sylwadau ar yr heriau o weithredu rhannu data a gallu/capaciti awdurdodau i ddefnyddio a dadansoddi unrhyw setiau data mawr.</li> </ul>	
<b>8</b>	<b>Prawf Cyfrifiad 2017</b>	<b>Glyn Jones</b>
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dywedodd GJ fod prawf Cyfrifiad 2017 wedi ei gwblhau.</li> <li>• Cafwyd diweddariad o Bowys: eu bod wedi codi ymwybyddiaeth o'r prawf ar y cyfryngau cymdeithasol ac yn y blaen a'u bod wedi cael cyfraddau ymateb uwch na'r cyfartaledd.</li> <li>• Cyfrifiad ar-lein - llawer mwy o alwadau nag arfer i'r llinell gymorth.</li> <li>• Niferoedd isel iawn o ymatebion yn Gymraeg.</li> <li>• Cyfrifiad 2021 - pedair sioe deithiol ranbarthol gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol dros yr haf.</li> <li>• Mae'r ONS wedi edrych ar ffyrdd hyblyg a deinamig o ledaenu'r data o Gyfrifiad 2021. Maent yn ceisio cael tablau rhyngweithiol i adeiladu tablau Cyfrifiad eu hunain.</li> <li>• Mae peilot wedi ei gynnal ar system Alfa gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ac mae'r gwahaniaethau yn niferoedd y data wedi cael eu hadrodd yn ôl.</li> <li>• 20 Mehefin 2017 - cyhoeddir asesiad cynnydd blynyddol ar gyfer y data gweinyddol.</li> </ul>	<p><b>Cam gweithredu:</b>  <b>Ysgrifenyddiaeth: Prawf Cyfrifiad 2017 i gael ei ychwanegu at agenda'r cyfarfod nesaf.</b></p>
<b>9</b>	<b>Diweddariad lles</b>	<b>Glyn Jones a David Thomas, Llywodraeth Cymru</b>
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Siaradodd GJ am yr adroddiad lles blynyddol</li> <li>• Disgwylid iddo gael ei gyhoeddi yn ail hanner Gorffennaf. Cyhoeddir 46 o ddangosyddion cenedlaethol ar ôl i ganlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol ddod ar gael.</li> <li>• Bydd 'Lles Cymru' yn adroddiad rhyngweithiol fydd yn cael ei ddiweddarau drwy gydol y flwyddyn, Dangosodd GJ y wefan ac adroddiad Power BI a rhoddodd arddangosiad o sut yr oedd yr offeryn lledaenu rhyngweithiol yn gweithio.</li> <li>• Rhoddodd DT ddiweddariad ar adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru (mae'r cyflwyniad / nodiadau ar gael) a gyhoeddwyd ar 5 Mai 2017.</li> <li>• Dywedodd DT mai dim ond cychwyn y broses adrodd yw'r adroddiad ar dueddiadau'r dyfodol a bod gwaith yn mynd rhagddo'n awr i greu adnodd i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ei ddefnyddio wrth baratoi eu Cynlluniau Lles. Fel rhan o hynny, mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r system Connect i gydgasglu deunydd cysylltiedig â thueddiadau'r dyfodol ac yn gofyn i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gyfrannu unrhyw ddata neu adroddiadau perthnasol.</li> </ul>	<p><b>Cam gweithredu: Pawb: rhoi cyngor pw y byddai'n fuddiol i DT ymgysylltu ag ef/hi i ddatblygu adrodd am dueddiadau'r dyfodol</b></p>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Caiff y dull llywodraethu ei bennu erbyn Hydref 2017 er mwyn sicrhau bod yr hyn sy'n dod nesaf yn cael ei ddatblygu gyda chefnogaeth y sector cyhoeddus ar gyfer y sector cyhoeddus.</li> <li>• Cafwyd trafodaeth ynghylch datblygu tueddiadau'r dyfodol; gofynnwyd i DT a oedd asesiadau lles lleol yn cael eu darllen a sut y gellir coladu'r data i'w wneud yn berthnasol i Awdurdodau Lleol ac nid ar lefel Cymru gyfan yn unig.</li> <li>• Dywedodd DT mai'r nod yw gwella'r dadansoddiad o'r tueddiadau, drwy gymorth academiaidd os bydd modd. Yn y tymor hwy, y dymuniad yw cael system ar-lein ar gyfer adrodd am dueddiadau'r dyfodol fyddai'n galluogi defnyddwyr i redeg sefyllfaoedd a chael gwell mynediad at ddata, ar lefel genedlaethol a lefel leol hefyd.</li> <li>• Dywedodd rhai aelodau eu bod yn siomedig yn yr adroddiad am dueddiadau'r dyfodol, gan nad yw wedi cyflawni'r hyn a ddisgwylid. Mynegwyd y farn hefyd fod yr adroddiad yn edrych i'r gorffennol ac nid i'r dyfodol.</li> <li>• Gwnaeth DT y sylw bod yn rhaid i adroddiad cyntaf tueddiadau'r dyfodol ddefnyddio'r data oedd ar gael. Swyddogaeth allweddol yr adroddiad yw tynnu sylw at y prif dueddiadau yn y dyfodol ar gyfer llunwyr polisïau ac felly mae angen iddo dynnu ar ffynonellau data eraill a'u dehongli. Ei werth allweddol felly yw cymharu data ar draws y tueddiadau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ac annog y darlennydd i wneud cysylltiadau. Er mwyn medru gwneud hyn, rhaid iddo alw ar ddata cenedlaethol a lleol ac mae ymdrechion yn mynd ymlaen yn awr i allu integreiddio data lleol.</li> <li>• Cafwyd trafodaethau ar p'un a fydd yna bethau yn tarfu ar y tueddiadau, ac a yw'r rhain wedi eu cymryd i ystyriaeth, newid gwleidyddol / technolegol / yr hinsawdd, - sut bydd y rhain yn effeithio ar y tueddiadau? Atebodd DT fod yr adroddiad cyntaf yn dechrau cyflwyno ffactorau dylanwadol a all effeithio ar y tueddiadau, ond hyd yma, oherwydd pwysau amser, na chafodd dadansoddiad manwl ei gynnwys. Roedd DT yn cydnabod bod angen i'r adroddiad gynnwys dadansoddiad o dueddiadau ac adeiladu sefyllfaoedd ac y bydd hyn yn allweddol i'w ddatblygiad a'i ddefnyddioldeb. Mae gwaith yn mynd rhagddo i nodi'r adnoddau sydd eu hangen i symud y gwaith hwn yn ei flaen.</li> <li>• Bu'r aelodau yn ystyried sut y gallent ddarparu cyngor ac arbenigedd i gynorthwyo'r broses i symud ymlaen a chawsant eu hannog i roi cysylltiadau perthnasol i DT.</li> </ul>	
<b>10</b>	<b>Unrhyw Fater Arall</b>	
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 5 Hydref 2017 ym Mharc Cathays. Mae'r agenda i gynnwys gwaith ar gyflwr tai a</li> </ul>	<b>Cam gweithredu: Gwneud Llesiant Cenedlaethau'r</b>

	<p>diweddariad ar y Cyfrifiad, papur ar ddiwygio lles / budd-daliadau, bwletin ystadegau / diweddariad am adborth ar y Cyfrifiad.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddai diweddariad ar y Campws Gwyddor Data yn ddefnyddiol mewn cyfarfod yn y dyfodol.</li> <li>• Atgoffodd SK aelodau y bydd mynediad at ddata marchnad lafur BRES yn fwy cyfyngedig yn y dyfodol.</li> <li>• Cafwyd adborth cadarnhaol i'r cyfarfod cyntaf gyda fideo-gynadledda gan ei fod yn lleihau'r amser teithio. Mae angen datrys problemau sŵn a safle'r camera. Mae angen mwy o waith ar agwedd Skype.</li> </ul>	<p><b>Dyfodol yn eitem sefydlog ar yr agenda.</b></p> <p><b>Cam gweithredu: SK i gylchredeg nodyn ar fynediad at ddata marchnad lafur BRES yn y dyfodol</b></p> <p><b>Cam gweithredu: Yr ysgrifenyddiaeth i gynnwys cwestiwn ar fideo-gynadledda ar yr holiadur adborth</b></p>
--	---	---

Rhif	Crynodeb o'r Pwyntiau Gweithredu	Statws	
1.	Awgrymu dyddiad ar gyfer webinar Ystadegau Cymru.	GJ	
2.	Ychwanegu diweddariad ar gyflwr tai at agenda'r cyfarfod nesaf.	Yr ysgrifenyddiaeth	Cwblhawyd
3.	Anfon nodyn ar y problemau a gafwyd gyda mapio ar borth daearyddol WISERD.	NJ	
4.	Cysylltu â CP/RC a siarad drwy dechnoleg Cyfarpar Data SAIL.	GJ	
5.	Gofyn i grwpiau polisi a oeddent wedi cynnal ymchwil ar y tai fforddiadwy a ddarparwyd ymysg tai a adeiladwyd o'r newydd o gymharu â'r angen.	GJ	
6.	Edrych i mewn i ddata Gwasanaeth Demograffig Cymru a chadarnhau a oes unrhyw newidiadau i Gymru o ganlyniad i newidiadau i broses NHSAR.	JM	
7.	Rhoi barn am gynllun strategol yr Uned Ddata pan fydd ar gael.	Pawb	
8.	A all Dewis Cymru gynnwys API neu wasanaeth data agored?	JM	
9.	Dweud wrth GJ/SL os oes yna ofynion cryf i gwestiynau gael eu cynnwys yn yr Arolwg Cenedlaethol ar gyfer 2018-19.	JE / Pawb	
10.	Ystyried syniadau am ffyrdd o gydweithredu gyda Phrifysgol Caerdydd a Champws Gwyddor Data y Swyddfa Ystadegau Gwladol, yn enwedig gan fod setiau mawr o ddata cludiant ar gael.	Pawb	
11.	Cylchredeg dolennau cyswllt i Gyflymder Cerbydau ar draffyrdd Cymru.	CS	
12.	Cylchredeg sleidiau ar y Cynllun Tystiolaeth gyda chofnodion y Pwyllgor.	GJ	



13.	Darparu adborth ar giwbiau amaethyddiaeth Ystadegau Cymru pan gânt eu cyhoeddi.	Pawb	
14.	Yr Uned Ddata i godi'r materion ynghylch y Mesurau Perfformiad ac Atebolrwydd Addysg (PAMs) ac adrodd yn ôl i CP.	JM	
15.	Edrych i mewn i'r cysylltiadau rhwng yr Arolwg Twristiaeth a STEAM gyda Chroeso Cymru a rhoi adborth i'r grŵp.	SL / GJ	
16.	Ychwanegu data diwygio lles, gan gynnwys contract dim oriau, at agenda'r cyfarfod nesaf.	Yr ysgrifenyddiaeth	
17.	Cylchredeg y dolennau cyswllt i ymgynghoriad y Fframwaith Genedlaethol.	GC	
18.	Anfon cwestiynau/sylwadau ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol i dîm y FfDC.	Pawb	
19.	Cylchlythyr y FfDC ar gael - Llofnodwch os ydych yn dymuno.	Pawb	
20.	Darparu'r papur ar Ddeddf yr Economi Ddigidol yn electronig.	GJ	Cyhoeddwyd 21/07/17
21.	Prawf Cyfrifiad 2017 i gael ei ychwanegu at agenda'r cyfarfod nesaf.	Yr ysgrifenyddiaeth	Cwblhawyd
22.	Rhoi cyngor pwy y byddai'n fuddiol i DT ymgysylltu ag ef/hi i ddatblygu adrodd am dueddiadau'r dyfodol.	Pawb	
23.	Gwneud Lles Cenedlaethau'r Dyfodol yn eitem sefydlog ar yr agenda.	Yr ysgrifenyddiaeth	
24.	SK i gylchredeg nodyn ar fynediad at ddata marchnad lafur BRES yn y dyfodol.	SK	
25.	Cynnwys cwestiwn ar fideo-gynadledda ar yr holiadur adborth.	Yr ysgrifenyddiaeth	Cwblhawyd